OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1763 (Cy.153)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*19 Mehefin 2007*
Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*20 Mehefin 2007*
Yn dod i rym - -	*13 Gorffennaf 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**), ac a freiniwyd ynddynt bellach:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Gorffennaf 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, mewnosoder ", neu ran o hynny" ar ôl y geiriau canlynol bob tro y maent yn ymddangos: "am bob 100 o unedau ychwanegol", "am bob 1,000 o unedau ychwanegol", "am bob 10 kg ychwanegol", "am bob 100 kg ychwanegol", "am bob 1,000 kg ychwanegol" ac "am bob 25,000 kg ychwanegol".

(3) Yn lle Atodlen 2, rhodder—

(**1**) 1973 p. 51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p. 32).
(**2**) O.S. 2006/2832 (Cy. 253).

"ATODLEN 2 Rheoliad 4

FFIOEDD AROLYGU MEWNFORIO (CYFRADDAU GOSTYNGOL)

Genws	*Nifer*	*Gwlad tarddiad*	*Ffi*	*sFfi (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd)*
Blodau wedi'u torri				
Aster	Fesul llwyth			
	— hyd at 20,000 o ran nifer	Zimbabwe	£6.62	£9.93
	— am bob 1,000 o unedau ychwanegol neu ran o hynny	Zimbabwe	£0.05	£0.07
	— uchafbris	Zimbabwe	£52.96	£79.44
Dianthus	Fesul llwyth			
	— hyd at 20,000 o ran nifer	Colombia	£0.40	£0.60
		Ecuador	£1.98	£2.97
		Israel, Twrci	£3.31	£4.96
		Moroco	£6.62	£9.93
	— am bob 1,000 o unedau ychwanegol neu ran o hynny	Colombia	£0.003	£0.004
		£0.01	£0.02	
		Israel, Twrci	£0.02	£0.03
		Moroco	£0.05	£0.07
	— uchafbris	Colombia	£3.17	£4.75
		Ecuador	£15.88	£23.83
		Israel, Twrci	£26.48	£39.72
		Moroco	£52.96	£79.44
Rosa	Fesul llwyth			
	— hyd at 20,000 o ran nifer	Kenya	£0.13	£0.19
		Colombia, Ecuador, Uganda	£0.66	£0.99
		Israel, Zambia	£1.32	£1.98
		Ethiopia, Tanzania, Zimbabwe	£3.31	£4.96
		India	£6.62	£9.93
	— am bob 1,000 o unedau ychwanegol neu ran o hynny	Kenya	£0.001	£0.002
		Colombia, Ecuador, Uganda	£0.005	£0.007
		Israel, Zambia	£0.01	£0.015

Genws	*Nifer*	*Gwlad tarddiad*	*Ffi*	*sFfi (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd)*
		Ethiopia, Tanzania, Zimbabwe	£0.02	£0.03
		India	£0.05	£0.07
	— uchafbris	Kenya	£1.06	£1.59
		Colombia, Ecuador, Uganda	£5.29	£7.94
		Israel, Zambia	£10.59	£15.89
		Ethiopia, Tanzania, Zimbabwe	£26.48	£39.72
		India	£52.96	£79.44
Ffrwythau				
Malus	Fesul llwyth			
		Chile	£0.93	£1.39
	— hyd at 25,000 kg o ran pwysau	Seland Newydd, De Affrica	£1.32	£1.98
		Yr Ariannin, UDA	£1.98	£2.97
		Brasil	£3.31	£4.96
		Tsieina	£4.63	£6.95
	— am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Chile	£0.03	£0.05
		Seland Newydd, De Affrica	£0.05	£0.07
		Yr Ariannin, UDA	£0.07	£0.11
		Brasil	£0.13	£0.19
		Tsieina	£0.18	£0.27
Mangifera	Fesul llwyth			
	— hyd at 25,000 kg o ran pwysau	Brasil	£1.32	£1.98
		Periw	£6.62	£9.93
	— am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny	Brasil	£0.05	£0.07
		Periw	£0.26	£0.39
Prunus	Fesul llwyth			
	— hyd at 25,000 kg o ran pwysau	Chile, De Affrica	£1.32	£1.98
		Yr Ariannin, Twrci	£1.98	£2.97
		UDA	£4.63	£6.95